**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

1. **Disgrifiwch ac esboniwch effeithiau'r cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gyfer gwelliant parhaus o ran sut mae Cymru'n cyflawni ei rhwymedigaethau o ran Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a Hawliau'r Plentyn. Mae pobl anabl yng Nghymru yn aml yn parhau i wynebu lefelau uchel o dlodi a gwahaniaethu, yn ogystal â mynediad cyfyngedig at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau, iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder. Bydd gwelliant yn golygu bod adrannau Llywodraeth Cymru a'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn eang, a'r newidiadau dilynol mewn polisïau a fydd yn arwain at gyfle cyfartal a chanlyniadau gwell i bobl anabl yng Nghymru.

Mae gan lawer o'r argymhellion a gyflwynwyd y potensial i drawsnewid bywydau pobl anabl, ond rydym yn disgwyl y byddant yn cymryd amser hir i'w cyflawni. Mae'r cynllun yn gynllun deng mlynedd (2025-2035).

Yn y Cynllun Hawliau Pobl Anabl hwn i Gymru, mae pedwar maes gweithredu cyffredinol:

- Cymdogaethau a Lleoedd;
- Cyflogaeth, Incwm ac Addysg;
- Byw'n Annibynnol;
- Cyfiawnder ac Amgylcheddau Cefnogol.

Mae'r pedwar maes yn ymdrin â deg prif thema, sy'n alinio â gweithgorau'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Ym mhob pennod, mae'r cynllun yn nodi'r canlyniadau cadarnhaol rydym ni am eu sicrhau i bobl anabl dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau'n gwneud addasiadau rhesymol i gael gwared ar yr anfanteision y mae pobl anabl yn eu hwynebu. Mae'r ddyletswydd hon yn sicrhau bod unigolion anabl yn cael yr un mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a swyddogaethau cyhoeddus. Efallai y bydd peidio â gwneud yr addasiadau hyn yn cael ei ystyried yn wahaniaethu anghyfreithlon. Fel rhan o'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae gan Lywodraeth Cymru saith Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol, sef:

- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 1:** Byddwn yn creu Cymru lle mae pawb yn cael cyfleoedd i ffynnu yn unol â'n nod sefydliadol i leihau tlodi.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hybu a lle maen nhw'n sail i bob polisi cyhoeddus.

- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 3:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus o safon uchel a chael mynediad cyfartal atynt.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 4:** Byddwn yn creu Cymru sy'n atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pawb.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 5:** Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb o'r amrywiaeth lawn o gefndiroedd gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, cael eu lleisiau wedi'u clywed, a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn swyddi arwain.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 6:** Byddwn yn creu Cymru â chyfleoedd teg a chyfartal i gael swydd ac sy'n sicrhau triniaeth deg a chyfartal yn y gweithle, gan gynnwys cyflog ac amodau teg.
- **Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 7:** Byddwn yn creu Cymru sy'n amgylcheddol gynaliadwy gyda'r gallu i sicrhau bod ein taith i sero net yn deg a'n bod yn ymateb i effeithiau annheg newid yn yr hinsawdd.

Byddwn yn sefydlu Bwrdd Cynghori Allanol i ddarparu cyngor a chymorth ynghylch gweithredu, cyflawni ac effaith y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

Mae Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi sut byddwn yn monitro canlyniadau'r cynllun hwn, er mwyn sicrhau rhagor o dryloywder ynghylch ein cynnydd tuag at gyflawni ein huchelgais, a rhoi gwybod i ni'n gynnar os bydd bylchau'n ymddangos, er mwyn i ni allu gweithredu. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phobl anabl a'u sefydliadau, yn ogystal â phartneriaid eraill, i fonitro ac adolygu ein camau gweithredu a'n heffaith.

Bydd ymgynghoriad 12 wythnos ar gyfer Cynllun Hawliau Pobl Anabl Cymru. Byddwn yn annog pob aelod o'r cyhoedd, yn enwedig pobl anabl a rhanddeiliaid, i gymryd rhan gan fod adborth gan bobl anabl yn hanfodol i wella'r gymuned pobl anabl. Bydd fersiwn derfynol y cynllun yn cael ei chyhoeddi ar ôl yr ymgynghoriad.

Nod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl yw cefnogi ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o wella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus, pontio'r bwlch cyflogaeth ar gyfer pobl anabl a'u cyfoedion, dathlu amrywiaeth, cysylltu cymunedau a dileu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Hawliau Pobl Anabl ar gael mewn fersiynau Iaith Arwyddion Prydain, Braille, Clywedol, Hawdd ei Ddarllen, Cyfeillgar i Blant, Cymraeg a Saesneg.

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ("PSED"), yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010"), i ystyried sut mae eu polisïau'n effeithio ar y rheini sydd â nodwedd warchodedig berthnasol. Mae anabledd yn un o'r nodweddion gwarchodedig. Mae gweithredu'r cynllun yn llwyddiannus yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac o fewn yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.

**Cofnod o'r Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Cadarnhaol | Nod y camau gweithredu arfaethedig yw creu effaith gadarnhaol ar bobl anabl o bob oed, gan sicrhau bod gwahanol grwpiau o fewn cymdeithas hefyd yn gynhwysol ar gyfer pob ystod oedran. | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a'r ffordd y gallai'ch cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gellid ei ddefnyddio i ddileu, y rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o amhariad yn anabl) | Cadarnhaol | Nod y cynllun yw mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu mewn cymdeithas yng Nghymru, gan sicrhau bod pob cam gweithredu o fudd i bobl anabl mewn ffordd gadarnhaol. | |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad eu hamhariadau sy'n gwneud pobl yn anabl, ond y rhwystrau maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn chwalu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am y 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol) | Ni nodwyd unrhyw effeithiau. | Bydd y cynigion sy’n hwyluso mynediad at ofal iechyd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl traws anabl. Gallai mynediad haws at wybodaeth a chyngor annog pobl traws anabl i fod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio’r Gwasanaethau Hunaniaeth Rhywedd. | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol | Bydd y cynigion sy’n hwyluso mynediad at ofal iechyd yn cael effaith gadarnhaol ar fenywod beichiog anabl. | |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr, a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol | Mae’r camau gweithredu’n nodi’r holl bobl anabl yng Nghymru beth bynnag fo’u hil neu eu statws mudwr. Nod y camau gweithredu yw darparu gwasanaethau gwybodaeth ac eiriolaeth hygyrch a fydd yn arbennig o fuddiol i’r cymunedau hyn. | |
| Crefydd, cred a dim cred | Cadarnhaol | Nod y camau gweithredu yw gwella hygyrchedd lleoliadau ac adeiladau er mwyn gwella mynediad i | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bobl anabl i fannau addoli. | |
| Rhyw / Rhywedd | Cadarnhaol | Er nad yw'r camau gweithredu'n ffocysu'n benodol ar rywedd, eu bwriad yw cael effaith gadarnhaol ar bob rhywedd. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Dim effaith | Ni nodwyd unrhyw effeithiau, er gallai mynediad haws at wybodaeth a chyngor annog pobl LHDT+ anabl i fod yn fwy hyderus wrth gyrchu gwasanaethau gwybodaeth a chymorth. | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim effaith | Nid yw'r cynigion yn mynd i'r afael â statws partneriaeth, a rhagwelir y bydd y polisi'n cael effaith fach iawn. | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol | Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân wedi'i gwblhau. | |
| Aelwydydd incwm isel | Cadarnhaol | Mae'r holl gamau gweithredu yn y cynllun wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â thlodi a gwella canlyniadau i bobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. | |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Mae parch at hawliau dynol sylfaenol, yn ogystal â chydraddoldeb, yn rhan annatod o holl waith Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl newydd. | |

**Hawliau Dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o Gytundeb Ymadael yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, ynghyd â Chytundeb Gwahanu yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Ardal Masnach Rydd Ewropeaidd (EEA EFTA)[2] a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir ("Cytundebau Hawliau Dinasyddion") yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y bydd eu hawliau dinasyddion yn cael eu diogelu.

Mae'r Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn cael eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (EUWAA)[3]

Bydd gan unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion fwy neu lai yr un hawliau parhaus i weithio, astudio a chael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau, i'r graddau y mae'r hawliau hyn wedi deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'u cyfranogiad yng Nghytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chytundeb Rhyddid Pobl i Symud yr Undeb Ewropeaidd a'r Swistir.

---

[2] Mae'r Ardal yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

[3] Adrannau 5 a 6 o EUWAA.

Yn amodol ar rai eithriadau cyfyngedig[4], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswyl newydd (naill ai cyn setlo neu statws preswylydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Daeth y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath i ben ar 30 Mehefin 2021.

**Preswylio** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau am breswylio, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswylio;

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i waith y Tasglu a'r Cynllun sydd ar y gweill. Yn fwy cyffredinol, mae'r Cynllun yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol pobl anabl mewn modd cadarnhaol.

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i waith y Tasglu a'r Cynllun sydd ar y gweill. Yn fwy cyffredinol, mae'r Cynllun yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol pobl anabl mewn ffordd gadarnhaol

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd

Roedd archwiliad diweddar (Chwefror 2025) y Cenhedloedd Unedig o'r Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) yn cydnabod nad yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli. Mae gan Lywodraeth Cymru rywfaint o gyfrifoldeb o dan Erthygl 10, ond dim ond mewn perthynas ag amddiffyn y teulu a phlant, a chyfrifoldeb rhannol o dan dlodi, bwyd a thai.

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i waith y Tasglu a'r Cynllun sydd ar y gweill. Yn fwy cyffredinol, mae'r Cynllun yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol pobl anabl mewn ffordd gadarnhaol

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

O dan ICESCR, mae hawliau cyfartal dynion a menywod yn cael sylw yn Erthygl 3. Nid yw ICESCR wedi'i ddatganoli'n llawn, ac nid yw wedi'i ymgorffori. Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn effeithio ar y rhaglen Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gan Lywodraeth Cymru i weithio tuag at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ar ymgorffori CEDAW a'r UNCRDP.

---

[4] E.e. lle mae gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth ddeuol Brydeinig a Gwyddelig) neu lle'r oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i'r Du neu aros yno)

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i waith y Tasglu a'r Cynllun sydd ar y gweill. Yn fwy cyffredinol, mae'r Cynllun yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol pobl anabl mewn ffordd gadarnhaol.

**Hawliau gweithwyr** – Mae hawliau gweithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn cael eu gwarantu, yn gyffredinol, yn yr un ffordd â phan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt hawl i beidio â bod yn destun gwahaniaethu oherwydd eu cenedligrwydd, a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â dinasyddion y DU.

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i waith y Tasglu a'r Cynllun sydd ar y gweill. Yn fwy cyffredinol, mae'r Cynllun yn fframwaith i gryfhau a gwella hawliau dynol pobl anabl mewn ffordd gadarnhaol